**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder

8 Ebrill 2024

Annwyl Lesley,

Argymhelliad a cham gweithredu 2: Adroddiad trais ar sail rhywedd

Llongyfarchiadau ar eich penodiad yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi a'ch gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol agos.

Yn gynharach eleni, cyhoeddwyd adroddiad gennym: 'Sut y mae'n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan: dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig trais ar sail rhywedd'.[1] Roedd eich rhagflaenydd yn ymrwymedig iawn i'r mater hwn ac yn ei hymateb i argymhelliad a cham gweithredu 2, roedd ymrwymiad i gyhoeddi'r cynlluniau gwaith a manylion aelodaeth pob un o ffrydiau gwaith y Glasbrint, yn ogystal â chylch gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth a'i ffrydiau gwaith. Wrth i'r flwyddyn ariannol ddod i ben, hoffem ofyn am ddiweddariad ar yr ymrwymiad hwn.

Wedi ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn fwy cyffredinol, byddem hefyd yn croesawu eglurhad mewn perthynas â'r isod.

- Argymhelliad 3: mae'r ymateb ysgrifenedig yn cyfeirio at grŵp sydd â'r gorchwyl o adolygu'r dangosyddion cenedlaethol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. O ystyried bod y dangosyddion presennol wedi'u mabwysiadu yn 2019, mae'r Aelodau'n pryderu nad ydynt yn cyd-fynd â'r strategaeth ddiweddaraf, sef y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2022-26. A fyddech cystal â rhoi eglurhad ynghylch pryd y bydd y dangosyddion diwygiedig yn cael eu cyhoeddi? Yn ogystal, sut y bydd y llywodraeth yn sicrhau atebolrwydd a monitro effeithiol ar y strategaeth newydd, yn enwedig os yw'r dangosyddion yn parhau i adlewyrchu'r strategaeth flaenorol?

[1] [1] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 'Sut y mae'n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan: dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig trais ar sail rhywedd', 15 Ionawr 2024

- **Argymhelliad 4**: mae'r ymateb yn disgrifio'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant, ond nid yw'n glir sut y mae hyn yn ymwneud ag argymhelliad 4. Rydym yn galw am gamau ar fyrder i sicrhau bod gwasanaethau therapi chwim ac arbenigol ar gael i bob baban, plentyn a pherson ifanc sy'n profi trais ar sail rhywedd neu sy'n dyst i drais o'r fath. Hyd y gwelwn, nid oes sôn am unrhyw beth sy'n ymwneud â gwasanaethau therapi arbenigol (h.y. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) yn y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2023. A fyddech cystal â darparu rhagor o fanylion ac eglurhad ar y pwynt hwn?

- **Argymhelliad 6**: mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ysgrifennu at ysgolion i ailbwysleisio'r rhwymedigaeth i roi gwybod am achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod ac yn nodi rôl arolygwyr Estyn. O ystyried pwysigrwydd y mater hwn, a allech roi rhagor o fanylion ynghylch sut y mae'r llywodraeth yn bwriadu gwella mesurau gorfodi i sicrhau bod athrawon yn cyflawni eu dyletswydd fandadol i roi gwybod am achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod, y tu hwnt i ailbwysleisio pwysigrwydd hyn drwy gyfathrebu'n ysgrifenedig?

- **Cam gweithredu 5**: mewn ymateb, rydych yn nodi y bydd y Gweinidog Addysg yn ysgrifennu at sefydliadau addysg uwch yng Nghymru er mwyn gofyn iddynt gryfhau eu dulliau ataliol o ran trais ar sail rhywedd. Yn sgil adroddiadau diweddar yn y cyfryngau sydd wedi tynnu sylw at drais rhywiol eang ar gampysau prifysgolion a phryderon ynghylch dulliau annigonol o gadw cofnodion, pa sicrwydd allwch chi ei roi o ran diogelwch menywod a merched ym mhrifysgolion Cymru? Sut y bydd y llywodraeth yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd mesurau a gymerir gan Sefydliadau Addysg Uwch i fynd i'r afael â thrais rhywiol?

Byddwch yn ymwybodol bod dadl yn y Cyfarfod Llawn wedi'i threfnu ar gyfer 8 Mai ac felly byddem yn croesawu ymateb cyn y ddadl i alluogi'r Aelodau i fyfyrio ar hyn yn eu cyfraniadau.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru